



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Y PWYLLGOR DEDDFAU

YR AIL GYNULLIAD

TRYDYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL

2005 - 2006

CYNNWYS	Rhif y dudalen
RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR DEDDFAU	4
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH	5
YR AIL GYNULLIAD: DADANSODDIAD O'R DRYDEDD FLWYDDYN	6
CYFLWYNIAD	6
CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: RHEOL SEFYDLOG 11.7	6
DOSBARTHIAD Y PROBLEMAU A NODWYD GAN Y PWYLLGOR O DAN REOL SEFYDLOG 11.7 (SIART BAR)	7
SYLWADAU	8
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2005 - 2006	8
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2005 - 2006 (SIART CYLCH)	9
MATERION GWEITHREDOL	9
GWEITHGAREDDAU ERAILL	9
NEWIDIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG	9
LC1150 – GORCHYMYN DEDDF Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB 2004 (DIWYGIADAU CANLYNIADOL) (CYMRU) 2005	10
NEWIDIADAU YN AELODAETH Y PWYLLGOR	10
OFFERYNNAU STATUDOL A WNAED YN SAESNEG YN UNIG	11
CRAFFU TECHNEGOL AR DDEDDFWRIAETH GAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL O FIS MAI 2007 YMLAEN	11
LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRWP MONITRO CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN YNG NGHYMRU (UNCRC)	14
LC1234 – THE FOOT-AND-MOUTH DISEASE (WALES) ORDER 2006 LC1235 – RHEOLIADAU CLWY'R TRAED A'R GENAU (RHEOLI BRECHU) (CYMRU) 2006	14
LC1286 - RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (TREULIAU TEITHIO A PHEIDIO Â CHODI TÂL) (DIWYGIO) (CYMRU) 2006	15

LLYTHYR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR BUSNES: GOBLYGIADAU'R MESUR DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL A RHEOLEIDDIOL – CYDSYNIO I ORCHMYNION SY'N EFFEITHIO AR SWYDDOGAETHAU'R GWEINIDOGION AC YMGYNGHORI AR GYNIGION SY'N BERTHNASOL I'R SWYDDOGAETHAU HYN	16
OFFERYNNAU STATUDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU	17
ADRODDIAD I AELODAU: CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN Y PWYLLGOR YN EI ADRODDIADAU (Tabl)	35
PWYNTIAU A NODWYD O DAN REOL SEFYDLOG 11.7	50

YR AIL GYNULLIAD

TRYDYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL

2005 - 2006



CRYNODEB O WAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU 2005-2006

RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR DEDDFAU

Swyddogaeth y Pwyllgor Deddfau yw sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud gan y Cynulliad yn ddiffygiol a bod unrhyw ofynion perthnasol wedi'u bodloni. Mae pob darn o is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yn unig yn dod gerbron y Pwyllgor Deddfau: hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi ystyried 1342 Offeryn Statudol. Yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn (2005-2006) mae wedi ystyried 219 darn o ddeddfwriaeth.

Ni fyddai'r gwaith craffu manwl ac angenrheidiol hyn yn bosib heb gyfraniad Aelodau'r Pwyllgor: Eleanor Burnham AC, Rosemary Butler AC, Jeff Cuthbert AC, Janice Gregory AC, Christine Gwyther AC, Ann Jones AC, Brynle Williams AC, Dai Lloyd AC a Janet Ryder AC, yn ogystal â Laura Jones AC, a adawodd y Pwyllgor ym mis Ionawr eleni. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'm rhagflaenydd, Glyn Davies AC, a fu'n cadeirio'r Pwyllgor hyd fis Ionawr 2006. Hoffwn yn ogystal gydnabod ymdrechion Cyngorwyr Cyfreithiol a swyddogion y Pwyllgor – mae eu cyfraniad hwy yn caniatáu i'r Pwyllgor weithredu yn effeithiol ac yn effeithlon o fewn amserlen brysur o gyfarfodydd wythnosol.

Yn olaf, gan fod y broses o graffu ar ddeddfwriaeth yn mynd i newid ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007, mae'r Pwyllgor Deddfau wedi cynnal adolygiad byr o'r trefniadau ar gyfer craffu technegol ar ddeddfwriaeth pan ddaw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym. Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Cynulliad, Aelodau a staff Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yr Alban, cyflwynwyr mewnol ac allanol, swyddogion y Pwyllgor Deddfau ac aelodau eraill o staff y Cynulliad Cenedlaethol am eu cyfraniad a'u cymorth.

David Melding AC
Cadeirydd, Pwyllgor Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

GWETHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pedair ffordd wahanol: drwy Weithdrefn Safonol, Gweithdrefn Weithredol, Gweithdrefn Garlam neu Weithdrefn Estynedig. Mae'r Pwyllgor Deddfau hefyd yn craffu ar ddeddfwriaeth a wneir o dan Reol Sefydlog 25.2 a Rheol Sefydlog 29.

Gweithdrefn Safonol

O dan y Weithdrefn Safonol, mae'r Gweinidog cyfrifol yn cyhoeddi Gorchymyn drafft i'r holl aelodau ac yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylai gael ei ystyried gan bwyllgor pwnc. Fel arfer mae'r Gweinidog hefyd yn gwneud arfarniad rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol y Gorchymyn drafft. Wedyn mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor Busnes ac yn argymhell a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes, mae'r Dirprwy Lywydd yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc (gweithdrefn estynedig) ac, ar ôl unrhyw adroddiad gan y pwyllgor pwnc, mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn ac yn ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfau. Mae'r Pwyllgor Deddfau yn adrodd wedyn ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r Gorchymyn drafft. Wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, gellir gwneud y Gorchymyn (Rheol Sefydlog 24).

Gweithdrefn Estynedig

O dan y Weithdrefn Estynedig anfonir Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc gan y Dirprwy Lywydd fel yr amlinellir yn y disgrifiad o'r Weithdrefn Safonol uchod (Rheol Sefydlog 24.6 – 24.8).

Gweithdrefn Garlam

O dan y Weithdrefn Garlam mae'r Cynulliad, ar gynnig y Gweinidog, yn pleidleisio i gymeradwyo Gorchymyn drafft heb unrhyw drafodaeth (Rheol Sefydlog 24.25), ond ar ôl iddo gwblhau pob cam arall o'r Weithdrefn Safonol.

Gweithdrefn Weithredol

O dan y Weithdrefn Weithredol, gall Cabinet y Cynulliad benderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio ag un neu fwy o gamau yn y weithdrefn safonol, gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth gan y Cynulliad. Pan wneir Gorchymyn heb iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad gall Aelod gyflwyno cynnig, o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y Gorchymyn, y dylid diddymu'r Gorchymyn. Os nad yw wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau cyn iddo gael ei wneud, fe'i cyfeirir at y Pwyllgor wedi hynny. Byddai unrhyw wallau a fyddai'n cael eu nodi o dan Reol Sefydlog 11.7 yn cael eu cywiro y tro nesaf y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu ar y pwnc. Fodd bynnag, petai'r gwall yn un difrifol, byddai angen gwneud deddfwriaeth i ddiwygio'r offeryn gwreiddiol mor fuan â phosib.

Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 29

Mae'r Pwyllgor Deddfau hefyd yn ystyried deddfwriaeth a wneir o dan Reol Sefydlog 29. Nid oes raid i is-ddeddfwriaeth o'r fath hon gael ei gwneud trwy gyfrwng Offeryn Statudol ac nid yw'n ddarostyngedig i weithdrefn seneddol.

Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25.2

Is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn Seneddol berthnasol.

YR AIL GYNULLIAD: DADANSODDIAD O'R DRYDEDD FLWYDDYN

CYFLWYNIAD

Swyddogaeth y Pwyllgor Deddfau yw craffu ar is-ddeddfwriaeth berthnasol y Cynulliad i sicrhau ei bod o fewn cwrpas y pwerau galluogi a'i bod wedi'i drafftio'n foddhaol. Nodir ei sail statudol yn adrannau 58 a 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a rhestrir ei swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 11.

Hwn yw'r Trydydd Adroddiad Blynyddol am waith y Pwyllgor Deddfau (Ail Gynulliad) ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Gorffennaf 2005 hyd fis Gorffennaf 2006. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'r Pwyllgor yn ystyried cyfanswm o **219** darn o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor i graffu ar Offerynnau Statudol. Cyflwynir y canlyniadau ar ffurf tabl er hwylustod.

Mae'r adroddiad hefyd yn trafod agweddau ehangach ar waith y Pwyllgor gan gynnwys yr Adolygiad o graffu technegol ar ddeddfwriaeth ar ôl 2007 a gynhaliwyd gan y Pwyllgor a'i bryder parhaus am y defnydd o ddeddfwriaeth Saesneg yn unig.

CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: RHEOL SEFYDLOG 11.7

Mae Rheol Sefydlog 11.7 yn nodi ar ba seiliau y dylai'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth. Mae'r seiliau fel a ganlyn:

- amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad;
- mae'n ymddangos bod y ddeddfwriaeth yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau;
- mae wedi ei heithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;
- mae'n ymddangos bod iddi effaith ôl-weithredol na chaniateir;
- mae angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr;
- mae'n ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol;

ac o fis Gorffennaf 2005 ymlaen

- mae'n methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill;
- mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- mae'r is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;
- mae'n ymddangos na chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.


Cyn adrodd i'r Cynulliad, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 11.6, hysbysu'r Gweinidog Cynulliad perthnasol am y bwriad hwn, a'i wahodd ef neu hi i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, (Gorffennaf 2005 – Gorffennaf 2006) ystyriodd y Pwyllgor **219** o ddarnau o ddeddfwriaeth.

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar **94** achlysur gwahanol. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hi'n bosib cywiro'r diffygion hynny drwy Femorandwm Cywiriadau: ar **62** o'r **94** achlysur.

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Offerynnau Statudol am y rhesymau a ganlyn:

- roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol ac roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **27** achos;
- roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol – **19** achos;
- ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **16** achos;
- drafftio diffygiol, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **10** achos;
- roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **9** achos;
- drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol – **4** achos;
- drafftio diffygiol, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol – **3** achos;
- roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol – **2** achos;
- amheuaeth a yw'r is-ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad, drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol – **1** achos;
- roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol – **1** achos;
- roedd angen eglurhad pellach, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **1** achos;
- drafftio diffygiol, ymddengys bod gan yr is-ddeddfwriaeth effaith ôl-weithredol, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol – **1** achos.



- 1– roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol ac roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- 2 – roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol;
- 3 – ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- 4 – drafftio diffygiol, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

- 5** – roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- 6** – drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;
- 7** – drafftio diffygiol, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;
- 8** – roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;
- 9** – amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad, drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;
- 10** – roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;
- 11** – roedd angen eglurhad pellach, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- 12** – drafftio diffygiol, ymddangos bod gan yr is-ddeddfwriaeth effaith ôl-weithredol, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol.

SYLWADAU

Yn ogystal ag adrodd yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.7, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad hefyd wedi cynnwys sylwadau ar fân wallau.

Nododd y Pwyllgor fod y drafftio'n ddiffygiol ar **76** achlysur ac awgrymodd fod angen mwy o eglurder ar **18** achlysur. Canfuwyd gwallau teipograffyddol ar **12** achlysur. Tynnwyd sylw at wallau gramadegol ar **8** achlysur. Nodwyd bod mân anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg ar **5** achlysur.


O gyfanswm o **219** Offeryn Statudol a ystyriwyd rhwng mis Gorffennaf 2005 a Gorffennaf 2006, ni fu'n rhaid i'r Pwyllgor wneud unrhyw sylwadau am **123** Gorchymyn. Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i dalu sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar **94** achlysur. O'r rhain, ystyriwyd awgrymiadau'r Pwyllgor yn llawn mewn fersiynau terfynol ar **68** achlysur; roedd **10** o fersiynau terfynol yn ymgorffori rhai o'r awgrymiadau; ni ddefnyddiwyd yr awgrymiadau yn y fersiwn derfynol mewn **18** achos. Dylid nodi bod canran gymharol uchel o'r fersiynau argraffedig nad oeddynt yn ymgorffori awgrymiadau'r Pwyllgor o ran y pwyntiau a godwyd o dan Reol Sefydlog 11.7 (h.y. 18 o'r 94 fersiwn terfynol) yn Offerynnau Statudol a wnaed o dan y weithdrefn Weithredol (mae'r Offerynnau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn i'r Pwyllgor eu gweld).

Mewn sawl achos, gofynnwyd i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wneud sylwadau ar ddrafftiau cynnar o'r ddeddfwriaeth. Felly cafodd nifer sylweddol o'r pwyntiau drafft a phwyntiau eraill eu cywiro cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor.

GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2005 – 2006

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pum ffordd wahanol: drwy'r Weithdrefn Safonol, y Weithdrefn Weithredol, y Weithdrefn Garlam, o dan Reol Sefydlog 29 ac o dan Reol Sefydlog 25 rhan II. O gyfanswm o **219** Gorchymyn a ystyriwyd gan y Pwyllgor rhwng mis Gorffennaf 2005 a mis Gorffennaf 2006, gwnaed **126** ohonynt (58%) drwy'r Weithdrefn Safonol; **29** ohonynt (13.2%) drwy'r Weithdrefn Weithredol; **54** ohonynt (25%) drwy'r Weithdrefn Garlam; **9** ohonynt (4.1%) o dan Reol Sefydlog 29 ac **1** ohonynt

(0.5%) o dan Reol Sefydlog 25 Rhan II. Ni wnaed unrhyw ddeddfwriaeth o dan y Weithdrefn Estynedig.



MATERION GWEITHREDOL

Cynhaliodd y Pwyllgor Deddfau gyfarfodydd bron bob wythnos yn ystod tymor y Cynulliad ac felly bu'n rhaid iddo weithio i amserlenni caeth iawn. Fodd bynnag, bu'r Pwyllgor yn gweithredu'n ddidrafferth. Gosodwyd pob Offeryn Statudol drafft ac adroddiadau'r cynghorwyr cyfreithiol ar agenda cyfarfodydd yn fuan ar ôl dyddiad gosod y ddeddfwriaeth ddrafft gerbron y Cynulliad. Nod Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor oedd sicrhau bod gan yr Aelodau bob papur ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.22. Ar ôl pob cyfarfod, sicrhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod Adroddiadau'r Pwyllgor yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl, a hynny ar yr un diwrnod fel arfer. Cafodd yr adroddiadau a'r cofnodion eu rhoi ar y rhyngwyd o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor. Anfonwyd pob llythyr o dan Reol Sefydlog 11.6 (h.y., llythyrau gan y Cadeirydd yn hysbysu'r Gweinidog bod y Pwyllgor wedi gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i Orchmynion arfaethedig y Cynulliad) o fewn yr amserlen hefyd.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

NEWIDIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG

Yn y cyfarfod ar 20 Medi 2005 dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod cynnig y Pwyllgor i ddiwygio Rheol Sefydlog 11 er mwyn ategu ei safbwynt o ran iaith rhyw benodol a deddfwriaeth na chaiff ei gwneud yn ddwyieithog wedi ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf 2005 a bod y Rheolau Sefydlog wedi'u diwygio yn unol â hynny. Bellach gallai'r Pwyllgor wneud adroddiad swyddogol i'r Cyfarfod Llawn yn nodi:

11.7(vii) – bod yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith rhyw benodol;

11.7(viii) – na chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

LC1150 – GORCHYMYN DEDDF Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB 2004 (DIWYGIADAU CANLYNIADOL) (CYMRU) 2005

Trafododd yr Aelodau'r Gorchymyn hwn yn y cyfarfod ar 11 Hydref 2005. Roedd diffyg cytundeb rhwng Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor a'r cyfreithwyr a ddrafftiodd y Gorchymyn. Roedd y Cynghorwyr Cyfreithiol yn credu y dylid dileu'r geiriau "England or" o'r cymal "or in England or Wales, fire and rescue authorities" gan mai dim ond i Gymru yr oedd y Gorchymyn yn berthnasol; roedd Clerc Awdurdodau Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno â'r farn hon. Dywedodd y Cynghorwyr Cyfreithiol fod Lloegr eisoes wedi gwneud y ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n cyfeirio at yr Awdurdodau Tân ac Achub ac nad oedd cyfeiriad at Gymru yn y ddeddfwriaeth honno. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru a Lloegr yn cyfateb i'w gilydd mewn gwirionedd pe câi'r geiriau "England or" eu gadael yn y testun. Hefyd, cafwyd achosion yn y gorffennol lle'r oedd problemau yn codi pan geisiai un rhan o'r Deyrnas Unedig ddeddfu ar gyfer rhan arall; pan wnaed cyfeiriadau at "Weinidogion yr Alban" neu'r "Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru a Lloegr" lle'r oedd mater wedi ei drosglwyddo i'r Cynulliad mewn gwirionedd. Pe na châi'r geiriau "England or" eu dileu, gallai sefyllfa debyg godi o ran y Gorchymyn hwn yn y dyfodol.

Roedd pryderon hefyd y gallai hyn ddylanwadu ar faterion fel tâl ac amodau gwaith neu ddarpariaethau ar gyfer grantiau arbennig gan Awdurdodau Canolog ac y dylai'r Pwyllgor ddilyn y cyngor a roddwyd yn y "Sylwadau a ddaeth i law ar ran y Gweinidog", h.y., dylid gadael y Gorchymyn fel y'i drafftwyd. Ar ôl trafodaeth hir penderfynwyd y dylid pleidleisio ar y mater. Canlyniad y bleidlais oedd 4 i 3 o blaid gadael y Gorchymyn fel y'i drafftwyd yn wreiddiol. Ni phleidleisiodd y Cadeirydd. Newidiwyd adroddiad y Pwyllgor yn unol â hynny.

NEWIDIADAU YN AELODAETH Y PWYLLGOR

Y cyfarfod ar 17 Ionawr 2006 oedd y cyfarfod olaf i gael ei gadeirio gan Glyn Davies AC. Bu Glyn Davies AC yn Aelod o'r Pwyllgor ers mis Tachwedd 2000 ac yn Gadeirydd ers 2003. Dros y blynyddoedd hynny, cyfrannodd at ddatblygiad y Pwyllgor i sicrhau ei fod yn gorff craffu effeithiol.

Gadawodd Laura Jones AC y Pwyllgor ar yr un pryd, wedi iddi fod yn aelod o'r Pwyllgor ers mis Mehefin 2003. Yn y cyfarfod ar 24 Ionawr 2006, rhoddodd y Cadeirydd newydd, David Melding AC, ddiolch ar ran y Pwyllgor i Glyn Davies AC a Laura Jones AC am eu gwaith, a chroesawodd Aelod newydd i'r Pwyllgor, sef Brynle Williams AC.

Wrth siarad â'r Pwyllgor, dywedodd David Melding AC ei fod yn credu bod rôl y Pwyllgor Deddfau – sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad llawn yn ddiffygiol a'i bod yn cydymffurfio ag unrhyw anghenion penodol – yn un hynod bwysig. Dywedodd hefyd y byddai cylch gwaith y Pwyllgor yn newid yn llwyr ar ôl 2007 a bod angen i'r Pwyllgor ystyried y posibiladau o ran cylch gwaith a swyddogaethau'r pwyllgor ar ôl 2007. Cynigiodd y Cadeirydd fod y Cynghorwyr Cyfreithiol yn paratoi papur yn trafod cylch gwaith a swyddogaethau pwyllgorau yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldebau tebyg i'r rhai a allai fod gan y Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007. Cytunodd y Pwyllgor â hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL A WNAED YN SAESNEG YN UNIG

Yn y cyfarfod ar 14 Chwefror 2006 bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Offerynnau Statudol a ganlyn, ymhlith offerynnau eraill:

LC1218 – The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional Provisions (Wales) Order 2006

LC1219 – Functions of Local Health Boards (Dental Public Health) (Wales) Regulations 2006

LC1224 – The National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006

LC1225 – The National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006

LC1226 – The National Health Service (Dental Charges) (Wales) Regulations 2006

Nododd yr Aelodau nad oedd fersiynau Cymraeg o'r Offerynnau Statudol hyn ar gael, ac roeddent o'r farn y dylid cynhyrchu pob darn o ddeddfwriaeth yn ddwyieithog er gwaethaf cyfyngiadau amser a'r ffaith bod testunau'n astrus. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r prif rwystr rhag cynhyrchu Offerynnau Statudol yn ddwyieithog yw diffyg dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n rhan o drafodaethau ar lefel Cymru a Lloegr ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gynhyrchu deddfwriaeth ddwyieithog. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog i fynegi pryderon yr Aelodau. Edrychwyd ar y mater hwn hefyd pan gynhaliodd y Pwyllgor yr Adolygiad o graffu ar ddeddfwriaeth yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007.

CRAFFU TECHNEGOL AR DDEDDFWRIAETH GAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL O FIS MAI 2007 YMLAEN

Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2006 trafododd y Pwyllgor bapur y Cynghorwyr Cyfreithiol ar gylch gwaith a swyddogaethau pwyllgorau yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldebau tebyg i'r rhai a allai fod gan y Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu materion o'r fath a chytunodd ar gylch gorchwyl yr adolygiad. Rhoddwyd gwybodaeth am yr Adolygiad ar wefan y Pwyllgor Deddfau ac anfonwyd llythyr at bob AC, yn gwahodd sylwadau ar graffu ar ddeddfwriaeth yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007.

Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd:

“Ystyried

(a) pa graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n briodol ar gyfer y gwahanol fathau o ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl i rannau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru ddod i rym;

(b) pa graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n addas ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig San Steffan ac Ewrop sy'n berthnasol i Gymru ar ôl y dyddiad hwnnw; a

(c) pha swyddogaeth allai fod gan bwyllgor deddfwriaeth neilltuedig wrth gyflawni craffu o'r fath a gwneud argymhellion.”

Yn y cyfarfod ar 21 Mawrth 2006 bu'r Pwyllgor yn ystyried y o broses craffu ar is-ddeddfwriaeth yng Ngweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon a bu'n ystyried trafod â Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, Jenny Randerson AC.

Yn ystod y drafodaeth, daeth y pwyntiau hyn i'r amlwg, ymhlith pwyntiau eraill:

- drafftio ar y cyd fyddai'r ffordd orau o greu deddfwriaeth ddwyieithog;
- byddai'n rhaid i nifer y cyfreithwyr dwyieithog sy'n gweithio i'r Llywodraeth ac i'r Cynulliad gynyddu;
- er mwyn lleihau'r anawsterau o ran hyfforddi a recriwtio arbenigwyr o'r fath, dylid meithrin cysylltiadau â'r prifysgolion a datblygu cyrsiau mewnol yn y Gwasanaeth Sifil;
- dylid cadw prif gopi caled o unrhyw ddogfen a gedwir yn electronig, gan y byddai'n hawdd newid dogfennau electronig a gallai fod yn anodd canfod ffynhonnell newidiadau o'r fath.

Yn y cyfarfod ar 28 Mawrth 2006 cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Mr David Lambert a Ms Marie Navarro o Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd. Ymysg y pwyntiau a wnaed wrth drafod oedd:

- os, o dan y ddeddfwriaeth newydd, y bydd Pwyllgor Deddfau yn cael ei sefydlu gallai fod â chylch gwaith eang iawn a allai gynnwys craffu ar unrhyw ddeddf sy'n effeithio ar Gymru, o ran cyfreithlondeb yr offerynnau a'u rhagoriaethau;
- yn ddelfrydol, byddai'r Cynulliad neu'i bwyllgorau yn craffu ar unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymru (lle bynnag y'i gwneir) er y byddai hyn yn anodd yn ymarferol;
- o fis Mai 2007 ni fydd y Cynulliad yn craffu ar fwyafrif yr Offerynnau Statudol cyffredinol cyn iddynt gael eu gwneud gan y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Bydd y weithdrefn newydd a gyflwynir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor newydd a Mesurau a wneir o dan y Gorchmynion hynny a bydd y Cynulliad yn treulio mwy o amser yn ystyried Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor drafft a mesurau drafft;
- ceir nifer o bosibiliadau o ran rôl Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007: gallai'r Pwyllgor:
 - edrych ar bob Offeryn Statudol fel y mae'n ei wneud nawr, p'un a fydd raid iddynt fynd i'r Cyfarfod Llawn neu beidio;
 - edrych ar y 10 y cant o ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn gan ganiatáu i'r Pwyllgor dreulio mwy o amser yn ystyried materion eraill, fel cyfreithlondeb, neu gyfreithlondeb a rhagoriaethau, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor arfaethedig a chyfreithlondeb y Mesurau a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad;
 - ystyried mesurau seneddol ac offerynnau statudol a wneir yn San Steffan gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru.

Daeth Anna Daniel, cynrychiolwr y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel, i'r cyfarfod ar 4 Ebrill 2006 i esbonio sut yr oedd pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar ddeddfwriaeth yr UE ar hyn o bryd a pham yr oedd hi'n bwysig craffu arni yn gynnar yn y broses ddeddfu. Ystyriodd y Pwyllgor a fyddai'r Pwyllgor Deddfau'n gallu ystyried deddfwriaeth Ewropeidd ar ôl 2007. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- gall y Pwyllgor ystyried a yw Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau eraill a/neu wedi'u gweithredu;

- mewn achosion lle y mae pwyllgor pwnc yn nodi bod maes yn arbennig o bwysig, gall y Pwyllgor Deddfau bwysu a mesur y pwerau a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a pha reoliadau y mae wedi'u cyflwyno.

Ar 2 Mai 2006 cynhaliodd y Pwyllgor gynhadledd fideo â Phwyllgor Is-Ddeddfwriaeth Senedd yr Alban. Roedd Sylvia Jackson MSP (Cynullydd) a Stewart Maxwell MSP yn cynrychioli. Nodwyd:

- bod Senedd yr Alban yn cynnal ymchwiliad i'r fframwaith rheoleiddiol yn yr Alban;
- bod dau gyfnod i'r ymchwiliad; bryd hynny roedd yr ymchwiliad yn ei ail gyfnod;
- bod y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth wedi nodi nifer o broblemau a'i fod bellach yn barod i argymhell ffyrdd o fynd i'r afael a'r problemau hynny;
- bod Confensiwn Sewel yn caniatáu i San Steffan ddeddfu ar gyfer yr Alban ar faterion sydd wedi'u datganoli yn ogystal â materion a gadwyd yn ôl. Mae Senedd yr Alban wedi datblygu gweithdrefn newydd lle y mae Gweithrediaeth yr Alban yn darparu "Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol" i'r Senedd sy'n rhoi manylion am Fesur San Steffan sy'n effeithio ar yr Alban ac yn darparu gwybodaeth am ddarpariaethau perthnasol y byddai pwyllgorau Senedd yr Alban yn craffu arnynt. Dyletswyd y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yw ystyried darpariaethau San Steffan sy'n rhoi pwerau newydd i Weithrediaeth yr Alban wneud is-ddeddfwriaeth. Mae hon yn weithdrefn newydd iawn a phan gynhaliwyd y gynhadledd fideo dim ond dau Femorandwm o'r fath yr oedd y Pwyllgor wedi craffu arnynt. Roedd y Pwyllgor yn craffu ar ddeddfwriaeth yr Alban yn bennaf;
- er bod y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod deddfwriaeth mewn Mesurau yn cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd, mae gan bwyllgorau pwnc Senedd yr Alban rôl o ran craffu ar y polisi a geir mewn Mesurau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Ewropeaidd;
- bod y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yn ymdrin â Deddfau Senedd yr Alban a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a geir gyda'r Mesurau (yn ogystal ag Offerynnau Statudol yr Alban);
- bod y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar y pwerau dirprwyedig mewn Mesurau a'u rhagoriaethau technegol; pa bwerau a roddwyd i'r Gweinidogion – pa mor eglur y cafodd Offerynnau Statudol eu drafftio – pa mor hawdd ydynt i'w deall; pwyllgorau pwnc sy'n craffu ar faterion polisi.

Daethpwyd i'r casgliad fod gan y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth lawer o waith i'w wneud yn ystod taith Mesurau trwy Senedd yr Alban, gan ganolbwyntio ar ddarpariaethau dirprwyedig Mesurau a diwygiadau olynol sy'n ymwneud â darpariaethau dirprwyedig. Mae'r Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yn dibynnu ar ei gynghorwyr cyfreithiol i ddarparu cyngor ar Fesurau iddo, a hefyd ar y wybodaeth a geir ym Memoranda Esboniadol y Weithredaeth sy'n cael eu cynnwys gyda phob darn o ddeddfwriaeth. Os yw'r Pwyllgor yn teimlo nad yw'r Weithrediaeth wedi darparu digon o wybodaeth, gall ysgrifennu at Adrannau perthnasol y Weithrediaeth i ofyn am ragor o wybodaeth. Pe bai'r diwygiadau a wneir yn nhrydydd cyfnod y broses ddeddfwriaethol yn dechnegol anghywir, gan y Siambr ei hun fyddai'r penderfyniad terfynol, fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth yn mynegi ei bryderon wrth y Senedd trwy gyflwyno gwelliannau neu ar lafar mewn dadl. Roedd y gynhadledd fideo (y gynhadledd gyntaf i gael ei chynnal yn y Senedd) yn fuddiol ac yn berthnasol.

Yn y cyfarfod ar 9 Mai 2006 bu'r Aelodau'n adolygu'r holl dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad. Cymeradwywyd yr adroddiad drafft yn y cyfarfod ar 23 Mai 2006. Prif

argymhelliad yr Adolygiad oedd y dylid sefydlu Pwyllgor Deddfau gan roi'r cyfrifoldebau hyn iddo:

- (i) parhau â'i rôl bresennol o graffu ar is-ddeddfwriaeth o safbwynt technegol, gyda rhyddid i ystyried rhagoriaethau ambell eitem o ddeddfwriaeth. Ni fyddai yn cwestiynu nod y polisi, dim ond ystyried ai'r ddeddfwriaeth oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gyrraedd y nod hwnnw.
- (ii) adolygu pob darpariaeth mewn Mesurau Cynulliad sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, a chyflwyno adroddiadau ar y darpariaethau hynny;
- (iii) adolygu darpariaethau mewn Mesurau Seneddol nad ydyn nhw'n cael eu hystyried gan un arall o bwyllgorau'r Cynulliad, sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, a chyflwyno adroddiadau ar y darpariaethau hynny;
- (iv) adolygu'r goblygiadau ar gyfer deddfwriaeth Gymreig mewn gorchmynion drafft o dan y Mesur Deddfwriaeth a Diwygio Rheoleiddio nad ydyn nhw'n cael eu hystyried gan un arall o bwyllgorau'r Cynulliad a chyflwyno adroddiadau ar y goblygiadau hynny;
- (v) adolygu sut mae pwerau cychwyn mewn Mesurau Cynulliad ac mewn Deddfau Seneddol sy'n gymwys i Gymru yn benodol yn cael eu defnyddio;
- (vi) ystyried unrhyw fater arall o natur ddeddfwriaethol sy'n gymwys yn gyffredinol, gan gynnwys yn arbennig sut mae deddfwriaeth ddwyieithog yn gweithredu a chynghori'r Cynulliad arno.

Dylid rhoddi i'r Pwyllgor hefyd y grym i adolygu'r goblygiadau ar gyfer Cymru mewn unrhyw ddeddfwriaeth Ewropeaidd ddrafft nad yw'n cael ei hystyried gan un arall o bwyllgorau'r Cynulliad a chyflwyno adroddiadau ar y goblygiadau hynny.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y Rhyngwyd ac ar ffurf copi caled. Anfonwyd copïau at y Llywydd, Prif Weinidog Cymru, pob cyflwynwr, Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgor newydd ar y Rheolau Sefydlog. Ar sail yr Adolygiad, rhoddodd y Cadeirydd dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog ddydd Llun, 17 Gorffennaf. Mae'r adroddiad llawn i'w gael ar wefan y Pwyllgor Deddfau.

LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRŴP MONITRO CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN YNG NGHYMRU (UNCRC)

Yn y cyfarfod ar 13 Mehefin 2006 trafododd yr Aelodau lythyr gan Gadeirydd Grŵp Monitro UNCRC yng Nghymru. Roed yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a fyddai'n bosib iddo fabwysiadu polisi i sicrhau bod deddfwriaeth berthnasol y Cynulliad yn gweithredu'n unol â'r UNCRC. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog i roi gwybod iddynt am hyn.

LC1234 – THE FOOT-AND-MOUTH DISEASE (WALES) ORDER 2006 LC1235 – RHEOLIADAU CLWY'R TRAE D A'R GENAU (RHEOLI BRECHU) (CYMRU) 2006

Yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2006 bu'r Aelodau yn ystyried LC1234 – The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 ac LC1235 – Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006. Gwnaed y ddau Offeryn Statudol o dan y weithdrefn Weithredol. O ran LC1234 nodwyd nad chafodd y Gorchymyn hwn ei wneud yn ddwyieithog. Roedd LC1235 yn cynnwys gwallau a fyddai wedi'u cywiro trwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau fel rheol ond gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud eisoes byddai'n rhaid cywiro'r gwallau drwy ddeddfwriaeth ddiwygio. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog priodol ynghylch y materion hyn gan ofyn am ei sylwadau o dan Reol Sefydlog 11.6 cyn llunio'r adroddiadau terfynol.

Yn y cyfarfod ar 2 Mai 2006 bu'r Aelodau yn ystyried ymateb y Gweinidog a chytunwyd y dylai'r adroddiadau ynghylch yr Offerynnau Statudol hyn gael eu diwygio er mwyn iddynt gyfeirio at sylwadau'r Gweinidog.

Yn y cyfarfod ar 9 Mai 2006 tynnwyd sylw'r Aelodau at yr eglurhad a roddwyd gan y Gweinidog o ran adroddiad y Pwyllgor ar LC1234 – The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 (y trydydd pwynt i'w adrodd o dan Reol Sefydlog 11.7). Roedd yn cyfeirio at y ffaith bod rhai o'r problemau wedi codi oherwydd bod cyfieithwyr allanol wedi'u defnyddio, gan nad oedd digon o amser gan gyfieithwyr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud y gwaith angenrheidiol oherwydd prinder adnoddau. Hefyd, awgrymodd yr Aelodau y dylid ail-wneud y Gorchymyn yn ddwyieithog, oherwydd ei bod yn amlwg o ymateb y Gweinidog bod testun Cymraeg bron â bod yn barod. O ran LC1235 – Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006 nodwyd ei bod yn hollbwysig cywiro'r gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg a nodwyd yn nhrydydd paragraff yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7 ("Yn y diffiniad o "minced meat" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn darparu fod yn rhaid iddo gynnwys "less than 1% salt". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "llai nag 1% o fraster"[*fat*]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]). Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones AC, i dynnu ei sylw at y materion hyn.

Yn y cyfarfod ar 20 Mehefin 2006 bu'r Aelodau yn ystyried ymateb y Gweinidog. Eglurodd y Gweinidog pam nad oedd testun Cymraeg ar gael ar gyfer LC1234 – The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006. Fe'i gwnaed yn Saesneg yn unig gan nad oedd modd defnyddio'r testun Cymraeg oherwydd problemau cyfrifiadurol. Nodwyd bod y Gweinidog wedi cyfeirio yn ei ymateb at brinder adnoddau. Yn ddiweddarach, soniodd y Cadeirydd am brinder adnoddau yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog.

Gosodwyd adroddiadau'r Pwyllgor ar y ddau Offeryn Statudol hyn yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2006.

LC1286 – RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (TREULIAU TEITHIO A PHEIDIO Â CHODI TÂL) (DIWYGIO) (CYMRU) 2006

Yn y cyfarfod ar 16 Mai 2006 bu'r Aelodau yn trafod LC1286 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006. Nodwyd bod y Pwyllgor Deddfau wedi argymhell yn 2001 y dylid gwneud ailddeddfiad cyflawn o Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru, gan fod testun Rheoliadau 1988 bellach yn hynod gymhleth. Bryd hynny, roedd y Pwyllgor yn ystyried LC341 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001. Ategwyd y sylwadau hynny yn adroddiad y Pwyllgor ar LC686 – Rheoliadau'r Gwasanaeth

Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2003. Gan fod y sefyllfa yn dal heb newid, ailadroddwyd y sylwadau eto fyth yn adroddiad y Pwyllgor ar LC1286. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Brian Gibbons AC, i dynnu ei sylw at sylwadau cyson y Pwyllgor. Cytunodd y Gweinidog nad oedd y Rheoliadau yn ddigon eglur ac addawodd y byddent yn cael eu hail-wneud yn ddwyieithog ym mis Ebrill 2007.

LLYTHYR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR BUSNES: GOBLYGIADAU'R MESUR DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL A RHEOLEIDDIOL – CYDSYNIO I ORCHMYNION SY'N EFFEITHIO AR SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION AC YMGYNGHORI AR GYNIGION SY'N BERTHNASOL I'R SWYDDOGAETHAU HYN

Yn y cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2006 dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Deddfau eisoes wedi ystyried goblygiadau'r Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol, a'i fod yn ymwybodol bod bwriad, yn dilyn Mesur Llywodraeth Cymru, mai Gweinidogion Cymru (ac nid y Cynulliad Cenedlaethol) fydd yn cydsynio i Orchmynion sy'n effeithio ar eu swyddogaethau (Cymal 12 (gynt 9) o'r Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol) ac mai â'r Gweinidogion hynny yr ymgynghorir am gynigion sy'n ymwneud â'u swyddogaethau (bellach yng Nghymal 14(1)(c)). Dywedodd fod y Pwyllgor Busnes yn credu y dylai'r swyddogaethau hyn aros gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl 2007 yn hytrach na chael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Gofynnodd am farn y Pwyllgor Deddfau ar y mater.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn wrth drafod:

- ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gydsynio o bryd i'w gilydd i is-ddeddfwriaeth eilradd a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac nid yw hynny'n llawer o waith;
- o ran democratiaeth, dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gadw'r pwerau hyn yn hytrach na'u trosglwyddo i'r Gweinidogion;
- y Cynulliad Cenedlaethol fyddai â'r pŵer i gydsynio a'r Gweinidogion fyddai â'r pŵer i negodi, a byddai'r broses gydsynio'n cymryd oriau yn hytrach nag wythnosau.
- dylid creu system i drosglwyddo'r swyddogaeth hon i Weinidogion Cymru pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cadw'r pwerau hyn a bod y dasg yn ormod o faich.

Penderfynwyd y dylai swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o ran cydsynio ac ymgynghori aros gyda'r Cynulliad yn hytrach na chael eu trosglwyddo i Weinidogion. Ysgrifennodd y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes i roi gwybod iddi am farn y Pwyllgor Deddfau.

OFFERYNNAU STATUDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

Rhif OS	Teitl yr OS a'r Weithdrefn a Ddilynwyd	Dyddiad(au) ystyried
LC1124	Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 12 Gorffennaf 2005</i>	20 Medi 2005
LC1125	Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 7 Gorffennaf 2005</i>	20 Medi 2005
LC1126	Rheoliadau Gwartheg Hyn (Gwaredu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 18 Ionawr 2006</i>	7 Chwefror 2006
LC1127	Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 30 Rhagfyr 2005</i>	20 Medi 2005
LC1128	Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 30 Rhagfyr 2005</i>	20 Medi 2005
LC1129	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 15 Hydref 2005</i>	27 Medi 2005
LC1130	Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym adrannau 61, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 74, 76 yw 5 Hydref 2005 a 15 Hydref 2005 ar gyfer pob adran arall.</i>	27 Medi 2005
LC1131	Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 14 Hydref 2005</i>	4 Hydref 2005
LC1132	Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 25 Tachwedd 2005</i>	4 Hydref 2005
LC1133	Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 14 Hydref 2005</i>	4 Hydref 2005
LC1134	Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 12 Hydref 2005</i>	4 Hydref 2005

LC1135	Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 20 Hydref 2005</i>	27 Medi 2005
LC1136	Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1137	Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1138	Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005, ac eithrio paragraff (2) o reoliad 2, rheoliad 38 ac Atodlen 6, sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2006.</i>	11 Hydref 2005
LC1139	Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1140	Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1141	Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1142	Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1143	Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 19 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1144	Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'i wneud ar 27 Medi 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1145	Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'i wneud ar 27 Medi 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1146	Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 11 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005

LC1147	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadau heb fod drwy Asiantaeth) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 30 Rhagfyr 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1148	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 30 Rhagfyr 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1149	The Seed (Registration, Licensing and Enforcement) (Wales) Regulations 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 18 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1150	Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 25 Hydref 2005</i>	11 Hydref 2005
LC1151	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Penodi Ymgynghorwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 2 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1152	Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 30 Rhagfyr 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1153	The Beet Seed (Wales) Regulations 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 18 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1154	The Vegetable Seed (Wales) Regulations 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 18 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1155	The Cereal Seed (Wales) Regulations 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 18 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005
LC1156	Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym ar gyfer adran 4 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym; adrannau 6 i 8; adran 12 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym; adrannau 13 i 15; adrannau 56 i 58 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym; adrannau 60 i 62 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym; paragraffau 13, 65 ac 111 i 113 o Atodlen 3 ac adran 139(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny; 30 Rhagfyr 2005.</i>	1 Tachwedd 2005
LC1157	Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 7 Tachwedd 2005</i>	18 Hydref 2005

LC1158	Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 21 Tachwedd 2005</i>	1 Tachwedd 2005
LC1159	Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 1 Ionawr 2006</i>	1 Tachwedd 2005, 22 Tachwedd 2005
LC1160	Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 11 Tachwedd 2005</i>	1 Tachwedd 2005
LC1161	Gorchymyn Addysg (Cyrrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 21 Tachwedd 2005</i>	8 Tachwedd 2005, 22 Tachwedd 2005
LC1162	Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 31 Rhagfyr 2005</i>	8 Tachwedd 2005
LC1163	Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 1 Ebrill 2006</i>	15 Tachwedd 2005
LC1164	Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 1 Ebrill 2006</i>	15 Tachwedd 2005
LC1165	Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Y dyddiad dod i rym yw'r diwrnod ar ôl gwneud y Gorchymyn. Dyddiad gwneud y Gorchymyn ddim yn hysbys.</i>	15 Tachwedd 2005
LC1166	Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Y dyddiad dod i rym yw'r diwrnod ar ôl gwneud y Gorchymyn. Dyddiad gwneud y Gorchymyn ddim yn hysbys.</i>	15 Tachwedd 2005
LC1167	Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 25 Tachwedd 2005</i>	15 Tachwedd 2005
LC1168	The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2005 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud 28 Hydref 2005</i>	8 Tachwedd 2005, 22 Tachwedd 2005
LC1169	The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) Regulations 2005 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud 28 Hydref 2005</i>	8 Tachwedd 2005, 22 Tachwedd 2005
LC1170	Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 25 Tachwedd 2005</i>	15 Tachwedd 2005

LC1171	Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005 <i>Y Weithdrefn Garlam. Dyddiad dod i rym 24 Tachwedd 2005</i>	15 Tachwedd 2005
LC1172	Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2005 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym 1 Ionawr 2006</i>	15 Tachwedd 2005
